# CYFLE I DDWEUD EICH DWEUD!

## ar foderneiddio Gofal Preswyl i bobl hŷn

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

Mae'r **ymgynghoriad yn dechrau** ar: **12 RHAGFYR 2022**
ac yn **dod i ben am 5pm** ar: **27 IONAWR 2023**

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **www.rctcbc.gov.uk/ymgynghori** ble mae modd i chi ddarllen manylion y cynigion. Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gopi caled o'r holiadur arnoch chi, cysylltwch â ni:

☎ **01443 425014**

✉ **GofalPreswyl@rctcbc.gov.uk**

**RHADBOST RSBU-HJUK-LSSS**, Carfan Ymchwil ac Ymgynghori,Y Pafiliynau, Cwm Clydach, CF40 2XX



**2022**

Ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.
Fydd gohebu yn Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

Os oes angen ein gwasanaeth eirioli ni arnoch chi, rhowch wybod i ni.

RHONDDA CYNON TAF

## Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2022, cafodd cynigion ar gyfer moderneiddio cartrefi gofal preswyl eu hystyried gan Cabinet y Cyngor ac roedd cytundeb i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr hoff ddewisiadau rhwng **12 Rhagfyr 2022** a **27 Ionawr 2023**.

Mae manylion hoff ddewisiadau y Cabinet ar gyfer cartrefi gofal preswyl y Cyngor wedi'u nodi yn y llyfryn yma. Dyma wahoddiad i chi i gyflwyno'ch barn chi ac unrhyw sylwadau sydd gyda chi ar yr hoff ddewisiadau, yn ogystal ag unrhyw opsiynau eraill neu newidiadau i'r cynigion hoffech chi i ni eu hystyried.

**Manteisiwch ar y cyfle yma i ddweud eich dweud.**

**I LENWI'R AROLWG AR-LEIN, SGANIWCH Y COD QR,** **neu ewch i:**

**www.rctcbc.gov.uk/ymgynghoriadaupresennol**

## Cefndir

Mae moderneiddio a gwella ei ddarpariaeth gofal i oedolion yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r boblogaeth yn heneiddio, ac mae llai o alw am gartrefi gofal 'traddodiadol' o achos newid yn nisgwyliadau pobl i aros gartref yn eu cymunedau lleol cyhyd ag y bo modd. Mae'r Cyngor yn credu y dylai bod modd i bobl gael mynediad i lety gofal preswyl sy'n fodern ac yn diwallu eu hanghenion. A ninnau'n Gyngor, mae gyda ni ddyletswydd i ailystyried ein model presennol a gofyn i ni ein hunain a yw e'n adlewyrchu anghenion a dyheadau ein poblogaeth ni ar hyn o bryd, a'r cenedlaethau i ddod hefyd.

Cafodd ymrwymiad gan y Cyngor i foderneiddio opsiynau llety â gofal i bobl hŷn, gan gynnwys gofal preswyl, ei gymeradwyo yn 2016, ac roedd cytundeb ar gynllun buddsoddi gwerth £50 miliwn i ddarparu 300 o welyau Gofal Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf yn 2017.

Mae Gofal Ychwanegol yn darparu llety modern i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau newidiol y boblogaeth hŷn sy'n tyfu, gan roi'r cyfle iddyn nhw fyw bywydau mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Maen nhw'n adeiladau modern, pwrpasol, sy'n darparu ar gyfer ystod o anghenion.

Mae preswylwyr Gofal Ychwanegol hefyd yn derbyn cymorth ar y safle wedi'i dargedu i'w hanghenion sydd wedi'u hasesu, mewn amgylchedd sy'n cynnig dewis amgen i gartref gofal. Mae'r gofal a'r cymorth yma ar gael bob awr o'r dydd ar gyfer y preswylwyr. Mae cyfleusterau Gofal Ychwanegol hefyd yn rhoi'r cyfle i ni gynnig gwasanaethau oriau dydd penodol ar gyfer pobl hŷn, yn ogystal ag adnodd cymunedol sy'n cynnig cyfleoedd yn y gymuned.

Mae dau gynllun Tai â Gofal Ychwanegol modern, newydd o'r radd flaenaf wedi cael eu hagor mewn partneriaeth â Linc Cymru yn Aberaman ym mis Mai 2020 a Phontypridd ym mis Rhagfyr 2021, gan ddarparu 100 o welyau newydd.

Ym mis Gorffennaf 2022, cafodd Cartref Gofal Ystrad Fechan ei gau dros dro, a chafodd 10 gwely newydd eu darparu yng Nghartref Gofal Parc Newydd, er mwyn cefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty. Roedd y newid yma, mewn ymateb i ostyngiad mewn cyfraddau deiliadaeth a phwysau enbyd yn y sector gofal, wedi sicrhau bod preswylwyr yn parhau i gael mynediad at gymorth a gofal o safon. O ganlyniad uniongyrchol, cynyddodd lefelau deiliadaeth yng nghartrefi gofal eraill y Cyngor wrth i'r preswylwyr a gafodd eu heffeithio gael cymorth i fanteisio ar ddarpariaeth amgen addas.

Ym mis Rhagfyr 2022, ystyriodd a phenderfynodd y Cabinet ar gynigion mawr i fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal preswyl yn Rhondda Cynon Taf a'u moderneiddio. Mae'r cynigion yn cynnwys tri chyfleuster newydd yn cynnig Gofal Ychwanegol a gofal dementia preswyl, pedwerydd llety newydd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, a chadw pum cartref gofal y Cyngor.

## Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Cyngor yn cynnal naw cartref gofal preswyl sy'n cynnig 267 o welyau, sy'n golygu ei fod e'n un o'r darparwyr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Mae nifer cynyddol o welyau wedi bod dros ben dros nifer o flynyddoedd – roedd 184 o welyau'n wag ym mis Tachwedd 2022, gan godi o dim ond 8 gwely gwag yn 2016. Mae'n annhebygol y bydd y galw am ofal preswyl yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol agos. Yn gyffredinol, mae 60% o welyau gofal preswyl y Cyngor yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac mae gan draean o'i gartrefi gofal o leiaf un o bob dau wely'n wag.

Gwnaeth adolygiad annibynnol ganfod bod dim modd adnewyddu unrhyw un o naw adeilad cartref gofal y Cyngor yn ddigonol i fodloni safonau modern. Gwnaeth yr adolygiad hefyd ganfod mai dim ond tri o naw lleoliad cartref gofal y Cyngor fyddai'n addas ar gyfer adeilad newydd. Ym mhob un o'r tri chartref hynny, byddai rhaid i'r preswylwyr presennol sy'n byw yn y cartrefi yma symud i lety arall dros dro am gyfnod o 18 mis o leiaf, tra bod y gwaith adeiladu yn cael ei gynnal.

## Yr Hoff Ddewisiadau

Yn dilyn adolygiad o gartrefi gofal preswyl y Cyngor i bobl hŷn, rydyn ni'n cynnal ymgynghoriad ar bum hoff ddewis.

Mae'r hoff ddewisiadau yn canolbwyntio ar wasanaethau ataliol, dewis, annibyniaeth, lles, ac anghenion yn y dyfodol. Byddai'r cynigion yn cynyddu'r opsiynau i bobl sydd angen llety a gofal, ac yn cynnig dewis ymarferol arall i'r rhai sy'n gallu aros yn annibynnol gyda chymorth yn eu cymunedau lleol nhw.

Mae'r dewisiadau y mae'r Cabinet wedi penderfynu ymgynghori arnyn nhw wedi'u nodi isod:

**DEWIS 1: Cadw darpariaeth y gwasanaeth presennol mewn pump o gartrefi gofal presennol y Cyngor.**

Byddai hyn yn cynnwys Cwrt Clydach yn Nhrealaw, Tŷ Pentre ym Mhentre, Tegfan yn Nhrecynon, Cae Glas yn y Ddraenen Wen a Pharc Newydd yn Nhonysguboriau.

**DEWIS 2: Llety newydd gyda 40 o fflatiau Gofal Ychwanegol ac 20 gwely dementia preswyl yn Nhreorci.**

Byddai'r datblygiad yma'n cael ei ystyried gyda Linc Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Byddai'n cael ei leoli ar dir ger Cartref Gofal presennol Ystrad Fechan. Mae'r cartref gofal ar gau dros dro heb unrhyw breswylwyr yn byw yno ar hyn o bryd a byddai'n cael ei ddadgomisiynu'n barhaol.

**DEWIS 3: Llety newydd gydag 20 o fflatiau Gofal Ychwanegol a 10 gwely dementia preswyl yn Nglynrhedynog.**

Byddai'r datblygiad yma'n cael ei ystyried gyda Linc Cymru. Byddai'n cael ei leoli ar dir ger Cartref Gofal presennol Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House). Byddai'r cartref gofal yn cael ei ddadgomisiynu pan fydd y llety newydd yn cael ei ddatblygu.

**DEWIS 4: Llety newydd gyda 25 o fflatiau Gofal Ychwanegol a 15 gwely dementia preswyl yn Aberpennar.**

Byddai'r datblygiad yma'n cael ei ystyried gyda Linc Cymru. Byddai'n cael ei leoli ar dir ger Cartref Gofal presennol Troed-y-rhiw. Byddai'r cartref gofal yn cael ei ddadgomisiynu pan fydd y llety newydd yn cael ei ddatblygu.

**DEWIS 5: Llety newydd gyda gofal i roi cymorth i oedolion ag anableddau dysgu ym Mhentre'r Eglwys.**

Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ailddatblygu Cartref Gofal presennol Garth Olwg. Byddai'r cartref gofal yn cael ei ddadgomisiynu pan fydd lleoliadau addas yn cael eu canfod ar gyfer ei breswylwyr, mewn cartref o'u dewis sy'n diwallu eu hanghenion asesedig.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Dydy'r Cyngor ddim wedi gwneud unrhyw benderfyniad eto ar wahân i'r penderfyniad i ddechrau ymgynghoriad. Mae'r ymgynghoriad yn para 7 wythnos, felly mae digon o amser i bobl gael dweud eu dweud. Bydd y sawl fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol a'u cynhalwyr yn cael cynnig cefnogaeth i sicrhau eu bod nhw'n cael cyfle i wybod beth yw pwrpas y cynigion a chael cyfle i wneud sylwadau arnyn nhw. Byddwn ni'n ystyried pob barn cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

# HOLIADUR – Gofal Preswyl

Darllenwch y manylion llawn yn y pecyn gwybodaeth cyn llenwi'r holiadur.

**Rhaid dychwelyd pob holiadur wedi'i lenwi erbyn 5pm ar 27 Ionawr 2023.**

Sut byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol:

Sail gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer prosesu eich gwybodaeth o dan y gyfraith diogelu data yw ei rwymedigaeth gyfreithiol i ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau. Mae'r ymatebion yn cael eu trin yn gyfrinachol a byddan nhw'n ymddangos yn ddienw yn yr adroddiad terfynol. Am ragor o wybodaeth am sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth, edrychwch ar Hysbysiadau Preifatrwydd y Gwasanaeth Ymgynghori a'r Gwasanaeth Gofal Preswyl (Oedolion) a pholisi Diogelu Data'r Cyngor, neu cysylltwch â'r Garfan Ymgynghori – ymgynghori@rctcbc.gov.uk

Mae'r holiadur yma'n gofyn i chi feddwl am ddarpariaeth fewnol Gofal Preswyl Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'n rhan o'r gwaith i gynllunio ar gyfer dyfodol y gofal hirdymor y mae'r Cyngor yn ei gomisiynu i bobl hŷn. Hoffen ni eich barn chi ar yr hoff gynigion arfaethedig sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer dyfodol darpariaeth fewnol Cartrefi Gofal Preswyl y Cyngor.

**C1.** P'un o'r rhain ydych chi?

- ❑ Preswylydd mewn un o gartrefi gofal preswyl y Cyngor (nodwch ba un):
  - ❑ Ystrad Fechan (yn aros yn Nhŷ Pentre ar hyn o bryd)
  - ❑ Tŷ Pentre
  - ❑ Cwrt Clydach
  - ❑ Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House)
  - ❑ Tegfan
  - ❑ Troed-y-rhiw
  - ❑ Cae Glas
  - ❑ Cartref Gofal Garth Olwg
  - ❑ Parc Newydd
- ❑ Perthynas / Partner / Ffrind preswylydd mewn un o gartrefi gofal preswyl y Cyngor
- ❑ Eiriolwr ar gyfer Preswylydd
- ❑ Aelodau o'r cyhoedd
- ❑ Aelod o staff
- ❑ Arall (nodwch yn benodol): ..........................................................................................

**C2.** A yw eich barn chi'n ymwneud ag unrhyw gartref gofal yn benodol? Nodwch ba un:

- ❑ Ystrad Fechan (yn aros yn Nhŷ Pentre ar hyn o bryd)
- ❑ Tŷ Pentre
- ❑ Cwrt Clydach
- ❑ Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House)
- ❑ Tegfan
- ❑ Troed-y-rhiw
- ❑ Cae Glas
- ❑ Cartref Gofal Garth Olwg
- ❑ Parc Newydd

**Yr hoff ddewisiadau sydd wedi'u hargymell ar gyfer yr ymgynghoriad.**
Mae'r cynigion sydd wedi'u dewis yn cynnwys **pob un o'r pum dewis isod**:

## DEWIS 1: Cadw darpariaeth y gwasanaeth presennol mewn pump o gartrefi gofal presennol y Cyngor:

- Cwrt Clydach, Trealaw
- Tŷ Pentre, Y Pentre
- Tegfan, Trecynon
- Cae Glas, Y Ddraenen Wen
- Parc Newydd, Tonysguboriau

**C3.** Ydych chi'n cytuno â dewis 1? **Ydw** ❑ (Cytuno) **Nac ydw** ❑ (Anghytuno) **Ddim yn gwybod** ❑

**C4.** Os dydych chi ddim yn cytuno â'r dewis, pam felly?

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**C5.** Sut byddai'r cynnig sydd wedi'i argymell yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu chi?

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

## DEWIS 2: Darparu llety newydd gyda 40 o fflatiau Gofal Ychwanegol ac 20 gwely dementia preswyl yn Nhreorci.

Byddai'r datblygiad yma'n cael ei ystyried gyda Linc Cymru a'r bwrdd iechyd. Byddai'n cael ei leoli ar dir ger Cartref Gofal Ystrad Fechan. Mae'r cartref gofal ar gau dros dro heb unrhyw breswylwyr a byddai'n cael ei ddadgomisiynu'n barhaol.

**C6.** Ydych chi'n cytuno â dewis 2? **Ydw** ❑ (Cytuno) **Nac ydw** ❑ (Anghytuno) **Ddim yn gwybod** ❑

**C7.** Os dydych chi ddim yn cytuno â'r dewis, pam felly?

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

**C8.** Sut byddai'r cynnig sydd wedi'i argymell yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu chi?

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

## DEWIS 3: Darparu llety newydd gydag 20 o fflatiau Gofal Ychwanegol a 10 gwely dementia preswyl yng Nglynrhedynog.

Byddai'r datblygiad yma'n cael ei ystyried gyda Linc Cymru. Byddai'n cael ei leoli ar dir ger Cartref Gofal presennol Tŷ Glynrhedynog (Ferndale House). Byddai'r cartref gofal yn cael ei ddadgomisiynu pan fydd y cyfleuster newydd yn cael ei ddatblygu.

**C9.** Ydych chi'n cytuno â dewis 3? **Ydw** ❑ (Cytuno) **Nac ydw** ❑ (Anghytuno) **Ddim yn gwybod** ❑

**C10.** Os dydych chi ddim yn cytuno â'r dewis, pam felly?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**C11.** Sut byddai'r cynnig sydd wedi'i argymell yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu chi?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

## DEWIS 4: Darparu llety newydd gyda 25 o fflatiau Gofal Ychwanegol a 15 gwely dementia preswyl yn Aberpennar.

Byddai'r datblygiad yma'n cael ei ystyried gyda Linc Cymru. Byddai'n cael ei leoli ar dir ger Cartref Gofal presennol Troed-y-rhiw. Byddai'r cartref gofal yn cael ei ddadgomisiynu pan fydd y cyfleuster newydd yn cael ei ddatblygu.

**C12.** Ydych chi'n cytuno â dewis 4? **Ydw** ❑ (Cytuno) **Nac ydw** ❑ (Anghytuno) **Ddim yn gwybod** ❑

**C13.** Os dydych chi ddim yn cytuno â'r dewis, pam felly?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**C14.** Sut byddai'r cynnig sydd wedi'i argymell yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu chi?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

## DEWIS 5: Darparu llety newydd gyda gofal i roi cymorth i oedolion ag anableddau dysgu ym Mhentre'r Eglwys.

Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ailddatblygu Cartref Gofal Garth Olwg. Byddai'r cartref gofal yn cael ei ddadgomisiynu pan fydd lleoliadau addas yn cael eu canfod ar gyfer ei breswylwyr, mewn cartref o'u dewis sy'n diwallu eu hanghenion asesedig.

**C15.** Ydych chi'n cytuno â dewis 5? **Ydw** ❑ (Cytuno) **Nac ydw** ❑ (Anghytuno) **Ddim yn gwybod** ❑

**C16.** Os dydych chi ddim yn cytuno â'r dewis, pam felly?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**C17.** Sut byddai'r cynnig sydd wedi'i argymell yn effeithio arnoch chi neu'ch teulu chi?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

## SYLWADAU ERAILL

**C18.** Oes gyda chi unrhyw awgrymiadau neu opsiynau amgen eraill? (Rhowch eich rhesymau).

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

## Manylion amdanoch chi

**C19.** Oedran: .................................   **C20.** Cod post: ......................................................

**C21.** O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw.

Sut byddai'r cynigion yma'n effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol? Rhywedd, Oedran, Ethnigrwydd, Anabledd, Rhywioldeb, Crefydd / Credo, Hunaniaeth o ran rhywedd, Perthynas, Beichiogi, Dewis iaith.

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

**C22.** Yn unol â Mesur y Gymraeg 2011, a Safonau'r Gymraeg yn ei sgîl, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ystyried sut mae'i benderfyniadau yn effeithio ar y Gymraeg.

Rhowch wybod i ni:
Sut byddai'r cynigion yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'u Cymraeg (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?

Sut gallai effeithiau cadarnhaol gael eu hestyn, neu'r effeithiau negyddol gael eu lleihau?

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

....................................................................................................................................

**C23.** Ydych chi erioed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd?

**Ydw ❑**   **Nac ydw ❑**   **Ddim eisiau dweud ❑**

**Ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi er mwyn trafod eich ymateb i'r holiadur yma?**

**Ticiwch y blwch:** ❑ Rydw i'n hapus i chi gysylltu â mi   ❑ Dydw i ddim yn hapus i chi gysylltu â mi

Enw: ..........................................................................................................................

E-bost / Rhif ffôn:..........................................................................................................

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yma.**

Cliciwch ar y botwm 'Cyflwyno' i lenwi'r holiadur ar-lein neu os ydych chi'n llenwi copi papur, anfonwch i:

**Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS,**
Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX

Neu, anfonwch eich barn gyffredinol aton ni mewn ebost:
**ymgynghori@rctcbc.gov.uk**

**I LENWI'R AROLWG AR-LEIN, SGANIWCH Y COD QR.**